**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/JH/0502/15

Y Fonesig Rosemary Butler DBE AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Mehefin 2015

Annwyl Rosemary,

Cyhoeddodd Ei Mawrhydi y Frenhines raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2015–2016 yn Ei Haraith i'r ddau Dŷ ar 27 Mai. Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu am y goblygiadau a ragwelir yn sgil y rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig ar fusnes yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Drwy ysgrifennu atoch, rwy'n cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol "Ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU 2012".

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i nodi a gwarchod buddiannau Cymru yn neddfwriaeth y DU. Byddwn yn cysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau cystal ag y gallwn bod deddfwriaeth Seneddol yn ystyried buddiannau Cymru, ac yn glynu at ofynion y Canllawiau ar Ddatganoli a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn credu mai'r Cynulliad ddylai fod yn deddfu deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, mae achos ar adegau dros ddeddfu ar gyfer Cymru mewn maes cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig drwy Fil Senedd y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pob achos o'r fath yn ofalus, ynghyd ag unrhyw gynigion Llywodraeth y DU sy'n ymddangos i addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, cyn ffurfio barn ynghylch a ddylid cefnogi rhoi deddfwriaeth ar gyfer Cymru ym Mil y DU. Yn achos Biliau lle mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu cefnogi darpariaeth o'r fath, ceisir cydsyniad y Cynulliad i Senedd y DU yn deddfu ar y materion hyn ar gyfer Cymru drwy gyfrwng Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a gyflwynir gerbron y Cynulliad, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Cyflwynodd Araith y Frenhines 24 bil newydd a 2 fil drafft y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cyflwyno yn Sesiwn Gyntaf y Senedd. Hefyd cyhoeddwyd cynnig i osod Deddf Hawliau Dynol Brydeinig yn lle'r Ddeddf Hawliau Dynol, ond ni chyflwynwyd unrhyw fanylion pellach. Mae rhai o'r Biliau hyn bellach wedi cael eu cyflwyno, ac mae eraill ar wahanol gamau datblygu. Mae hyn yn golygu bod ein gwybodaeth o'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

darpariaethau arfaethedig yn amrywio o un bil i'r llall; mae'r ffordd rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar filiau unigol hefyd yn amrywio, gan ddibynnu i ba raddau y mae darpariaethau'r biliau hynny yn dod o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig neu'n codi materion trawsffiniol. Ar ben hyn, lle nad yw biliau wedi cael eu cyhoeddi eto, mae cyfyngiadau arnom o ran yr hyn y gallwn ei ddweud ar hyn o bryd oherwydd cyfrinachedd mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol.

Wedi dweud hynny, gallaf rannu ein hasesiad cychwynnol o gynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU gyda chi. Mae ein hasesiad cychwynnol yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer un bil a dau fil drafft posibl, ar ôl cyflwyno'r biliau yn Senedd y DU, naill ai oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Cynigion i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a gosod Deddf Hawliau (ymgynghoriad a bil drafft posibl)**

Mae nifer o'r biliau yn rhaglen Llywodraeth y DU yn arwyddocaol iawn o safbwynt cyfansoddiad Cymru a'r DU yn ehangach. Gallai Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, a'r posibilrwydd o ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a chynigion ar gyfer Deddf Hawliau Dynol Brydeinig, gael effeithiau dwfn a phellgyrhaeddol ar Gymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n dilyn hynt y cynigion hyn yn agos. Ein barn ni yw ei bod yn debygol y byddai unrhyw gynnig i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a gosod Deddf Hawliau Dynol Brydeinig yn ei lle yn gofyn am gydsyniad gan y Cynulliad drwy gyfrwng Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur eto pa gynigion y bydd Llywodraeth y DU yn eu datblygu yn hyn o beth.

**Bil Cymru Drafft**

Rydym yn disgwyl gweld fersiwn ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer craffu cyn deddfu. Bydd angen LCM ar ôl cyflwyno'r Bil oherwydd ein bod yn disgwyl y bydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy newid y model datganoli i fodel cadw pwerau, ac yn datganoli rhagor o bwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad. Rydym hefyd yn disgwyl i bwerau gweithredol gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, a fyddai'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru a chyflwyno datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 30.

**Bil Menter**

Dywedodd Llywodraeth y DU mai ei hamcan ar gyfer y bil hwn yw sicrhau safle'r DU fel y lle gorau yn Ewrop i gychwyn a thyfu busnes drwy dorri biwrocratiaeth a'i gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfod yn gyflym ac yn hawdd. Mae hwn yn fil pellgyrhaeddol ac rydym yn disgwyl y bydd angen LCM ar gyfer rhai agweddau arno.

Byddwn yn parhau i gadw llygad ar yr angen am gydsyniad ar gyfer yr holl filiau arfaethedig; gallai hyn newid wedi i ni graffu ar destunau'r biliau unigol, a phan fydd manylion biliau pellach yn cael eu cwblhau.

Yn achos Biliau drafft, bydd cyfle wrth gwrs i'r Cynulliad ystyried eu darpariaethau'n fanwl yn ystod y cyfnod craffu cyn deddfu, a rhoi mewnbwn ar gynnwys y darpariaethau sy'n effeithio ar Gymru cyn cyflwyno pob bil.

**Amseru**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno unrhyw Gydsyniadau Cymhwysedd Deddfwriaethol cyn gynted â phosibl er mwyn gallu craffu arnynt yn briodol cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad. Yn ddelfrydol, dylid ystyried pob mater cydsyniad erbyn i'r Bil gyrraedd ei gyfnod gwelliannau terfynol yn y Tŷ cyflwyno cyntaf. Fodd bynnag, bydd achosion bob amser o gyflwyno gwelliannau i filiau yn hwyr yn y broses Seneddol; mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio sicrhau bod unrhyw welliannau sydd â goblygiadau o ran cydsyniad i'r Cynulliad yn cael eu tynnu at sylw'r Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ar ben hyn, yn achos penodol Bil Cymru, mae'n bosibl y caiff ei gyflwyno gerbron Senedd y DU yn fuan cyn diddymu'r Cynulliad cyn etholiadau 2016, ac os felly bydd angen ystyried bryd hynny yn union sut dylem reoli'r broses LCM mewn perthynas â'r Bil.

Wrth i union fanylion biliau arfaethedig Llywodraeth y DU ddod i'r amlwg, mae'n debygol y byddwn yn nodi meysydd ychwanegol lle ceir cynigion i ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, a lle bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a fydd yn cefnogi cynnwys y darpariaethau hynny ac yn cyflwyno LCM gerbron y Cynulliad. Gellid cyflwyno rhagor o Filiau, gan gynnwys Biliau Aelod Preifat, lle gallai LCM fod yn ofynnol. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei hysbysu am unrhyw gynigion ychwanegol o'r fath wrth iddynt godi, ynghyd â gwelliannau perthnasol i Filiau Llywodraeth y DU.

Byddaf yn parhau i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Busnes yn rheolaidd ynghylch deddfwriaeth y DU fel y mae'n effeithio ar Fusnes y Cynulliad wrth i'r sesiwn Seneddol newydd fynd yn ei blaen.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business